

GORFFENAF 2015

NEWYDDION

CCG

1 2 3
Barod

Gwobr i'n
tenantiaid

GWAITH
GWELLA





Gerad Laidlaw



Iolo Roberts



Gareth Jones



John Glyn Jones



Arwel Williams

WARDENIAID CYMUNEDOL

Rydym wedi ymrwmo i gefnogi a hybu cymunedau diogel a chynaliadwy. Mae'n Wardeniaid Cymunedol yn gwasanaethu pob ardal o Wynedd. Eu nod yw sicrhau bod tenantiaid yn gallu mwynhau eu cartrefi a bod yn falch o'u cymuned. Yn ogystal â bod yn bresenoldeb gwledol ar ein stadau, mae'r wardeniaid yn rhoi cymorth i drigolion, rhedeg prosiectau yn y gymuned, helpu i gynnal tenantiaethau a chydweithio gyda mudiadau a grwpiau lleol.

Ydych chi'n gwybod pwy yw eich Warden Cymunedol?

Gerad Laidlaw
Iolo Roberts
Gareth Jones
John Glyn Jones
Arwel Williams

Bangor
Caernarfon
Gogledd Gwynedd (tu allan i'r trefi)
Dwyfor
Meirionnydd

Os ydych eisiau trafod unrhyw un o'r materion uchod ffoniwch ein Tîm Gwasanaethau Bro ar **0300 123 8084** neu ewch i'n gwefan **www.ccgwynedd.org**.

DIOGELWCH gyntaf!

Mae diogelwch tân mewn fflatiau yn bwysig iawn. Dyna pam rydym wrthi'n rhedeg cynllun peilot yn ardal Pwllheli ar hyn o bryd er mwyn ceisio atal preswylwyr rhag gadael nwyddau mewn manau cymunedol mewn fflatiau.



Gall nwyddau mewn llefydd fel coridorau, cynteddau ac ati mewn bloc o fflatiau achosi tân. Maent hefyd yn creu rhwystr os oes tân a bod angen i bobl adael yr adeilad neu os yw'r Gwasanaeth Tân angen mynd i mewn.

Dros y ddwy flynedd diwethaf rydym wedi buddsoddi llawer ar wella diogelwch tân yn ein fflatiau. Rydym nawr yn gofyn am help tenantiaid a phreswylwyr i wneud eu rhan i gadw'r adeiladau'n ddiogel.


Bwriad y cynllun yw stopio pobl rhag gadael eitemau yn y llefydd cymunedol, gan gynnwys pramiau, beiciau a sgwteri. Os bydd Warden Cymunedol yn dod ar draws yr eitemau hyn, byddent yn rhoi sticer rhybudd arnynt. Os na fydd yr eitem yn cael ei symud bydd staff CCG yn ei storio a bydd dirwy yn cael ei godi y bydd yn rhaid ei dalu cyn rhyddhau'r eitem.

Meddai Geraint Jones, Rheolwr Gwasanaethau Bro CCG: "Rydym yn gofyn i bawb sy'n byw yn ein fflatiau i'n helpu ni eu cadw'n saff. Mae gadael pethau yn y manau agored a chymunedol yn gallu rhoi bywyddau pobl eraill yn yr adeilad mewn perygl. Drwy weithio gyda'n gilydd fe allwn wneud yn siŵr fod ein fflatiau yn llefydd diogel i fyw."

TAI GWARCHOD

Ydych chi'n mynd yn hŷn, yn anabl neu'n fregus ond eisiau byw yn annibynnol?

Mae gan CCG nifer o unedau gwarchod sy'n darparu llety cyfleus a chyfforddus mewn amgylchedd ble mae gennych chi ddrws ffrynt eich hunain fel y gallwch fynd a dod fel y mynnwch.



Bro Llewelyn

Mae pedwar o'n prif unedau, sef Bro Llewelyn ym Mhenrhyndeudraeth; Pentre' Uchaf, Dyffryn Ardudwy; Cysgod y Coleg, Y Bala; a Hafan Deg, Y Bermo yn agosáu at ddiwedd gwaith gwella mawr sy'n cynnwys ceginau ac ystafelloedd ymolchi, ffenestri a drysau newydd. Mae rhai unedau wedi cael gwaith ychwanegol fel lifft ac ystafell haul yn ogystal â gwelliannau i du allan yr adeilad. Mae gan bob fflat llofft braf; cegin; unai un, dwy neu dair llofft; ac ystafell ymolchi gyda chawod mynediad hawdd. Mae gan y safleoedd hefyd llofft a chegin gymunedol ble mae digwyddiadau fel boreau coffi a chlybiau cinio wythnosol yn cael eu cynnal, warden, larwm argyfwng 24 awr, a system mynediad electroneg.

Os oes gennych chi ddiddordeb mewn byw mewn un o'n tai gwarchod neu eisiau gwybod mwy cysylltwch â ni ar **0300 123 8084** neu e-bostiwch **ymholiadau@ccgwynedd.org.uk**




123 ...Barod

BAROD AM...CREDYD CYNHWYSOL

Mae Credyd Cynhwysol yn newid y ffordd y byddwch yn derbyn budd-dal.

Gallwch baratoi mewn **3** cham...



BANCIO

Agorwch gyfri banc – rhaid i chi gael cyfri banc i dderbyn Credyd Cynhwysol

AR-LEIN

Ewch ar-lein – dim ond ar y we y gallwch wneud cais am Credyd Cynhwysol

ARIAN

Trefnwch eich arian yn ofalus – un taliad, unwaith y mis yw Credyd Cynhwysol

Beth yw Credyd Cynhwysol?

Mae Llywodraeth y DU yn newid budd-daliadau. Gall y newidiadau effeithio arnoch chi.

Credyd Cynhwysol yw'r taliad misol newydd fydd yn dod yn lle nifer o fudd-daliadau gwahanol gan gynnwys budd-dal tai.

Os ydych chi'n cael unrhyw fudd-daliadau ar hyn o bryd mae'n debyg eich bod yn cael sawl taliad, ar adegau gwahanol o bob mis. Bydd Credyd Cynhwysol yn cymryd lle'r rhain gydag un taliad misol yn syth i'ch cyfri banc.

Gan y byddwch yn derbyn yr arian yn uniongyrchol mae'n rhaid i chi drefnu i dalu eich rhent i CCG, eich landlord.

Cofiwch y tri cham i fod yn barod am Credyd Cynhwysol!

Am fwy o wybodaeth ewch i: **www.yourbenefitsarechanging.co.uk** neu ffoniwch ni ar **0300 123 8084** a gofynnwch am y Tîm Rhenti.



ADEILADU cartrefi newydd

Mae'r gwaith o adeiladu cartrefi newydd ym Mangor a Phwllheli wedi dechrau. Rydym wedi penodi cwmni G Morris Construction o Langollen fel contractwyr i wneud y gwaith.

Yn Tan y Bryn, Bangor mae'r gwaith o adeiladu 6 tŷ dwy lofft yn dod yn ei flaen yn dda gyda'r waliau allanol bron a gorffen. Yn dilyn oedi yn y gwaith i lawr y ffordd yn Tŷ Cegin, rydym bellach wedi dechrau ar y gwaith yno hefyd, o osod sylfaeni ar gyfer pum tŷ dwy lofft.

Rydym yn gobeithio y bydd y tai yn barod i groesawu tenantiaid newydd ym mis Ionawr 2016.

Rydym wedi dechrau ar y safle yn Lôn Abererch, Pwllheli hefyd. Yno rydym yn bwriadu adeiladu pedwar tŷ dwy lofft a thri byngalo dwy lofft fydd yn barod ar gyfer tenantiaid newydd ym mis Mawrth 2016.

Meddai Huw Evans, Rheolwr Datblygu ac Adeiladu CCG: "Rydym yn adeiladu cartrefi newydd ym Mangor a Phwllheli mewn ymateb i'r galw yn lleol am gartrefi dwy ystafell wely. Er bod oedi wedi bod ar ddau o'r safleoedd, mae'r gwaith erbyn hyn yn dod yn ei flaen yn dda."

Mae polisi gosod lleol wedi ei greu ar gyfer y cartrefi newydd sy'n rhoi blaenoriaeth i denantiaid lleol sy'n cael eu heffeithio gan y dreth llofft.

Os ydych chi eisiau cofrestru eich diddordeb yn y cartrefi yma, cysylltwch â Thîm Opsïynau Tai Gwynedd ar **01286 685100** neu ffoniwch CCG ar **0300 123 8084** i wybod mwy.



Gwaith GWELLA

Yn dilyn ein rhaglen welliannau gyntaf sef Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC), mae'r gwaith o fuddsoddi yn ein cartrefi yn parhau gyda llawer o waith ar y gweill. Dros y 5 mlynedd nesaf byddwn yn buddsoddi £10 miliwn y flwyddyn ar wella a chynnal safon cartrefi ein tenantiaid.

Mae'r gwaith yma'n cynnwys gwelliannau gwresogi, gwaith ar gartrefi an-nhraddodiadol neu pre-fab, gwaith ar dai gwag a gwaith ar gartrefi sydd ddim wedi cael gwelliannau yn y pum mlynedd diwethaf.

Dywedodd Daniel Parry, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Asedau CCG: "Yn dilyn ein prif raglen fuddsoddi SATC, byddwn ni'n parhau i wario ar gartrefi tenantiaid. Mae ein syrfeyr wedi dechrau ymweld â chartrefi ar draws Gwynedd yn barod er mwyn gweld pa waith sydd angen ei wneud ac rydym yn y broses o benodi contractwyr."

Os nad ydi eich cartref chi wedi cael gwaith o dan y rhaglen SATC, efallai am nad oedd yr amser yn gyfleus neu os ydych chi wedi newid eich meddwl, yna cysylltwch â ni ar **0300 123 8084** ac fe fyddwn yn ceisio eich cynnwys yn y rhaglen newydd.

AROLWG BODDHAD



Mae eich barn chi am wasanaethau CCG yn bwysig iawn i ni er mwyn sicrhau ein bod yn eu gwella drwy'r amser. Am y tro cyntaf erioed rydym wedi dechrau tecstio holiadur boddhad byr i'n tenantiaid. Y cyfan sy'n rhaid i chi wneud ydi ateb y chwe cwestiwn ar raddfa o 1 i 5 am gyfle i ennill iPad.

Gyda ffonau symudol bellach yn ganolog i'n bywydau bob dydd, mae tecstio yn ffordd gyflym, rhad ac effeithiol iawn o gysylltu gyda'n gilydd.

Dywedodd Gethin Armstrong, sy'n Reolwr Gwasanaethau Cwsmer yn CCG: "Mae tecstio yn cael ei weld fel ffordd

gyfleus a chyflym i denantiaid fedru mynegi barn am wasanaeth CCG. Mae defnyddio technoleg fel hyn yn rhoi cyfle i chi roi eich barn yn onest ac ar adeg sy'n gyfleus i chi. Hoffwn ddiolch ymlaen llaw i bawb sydd wedi cwblhau'r arolwg yn barod a phob lwc i chi gyd yn y gystadleuaeth i ennill iPad."

Rydym yn bwriadu gwneud mwy o ddefnydd o systemau tecstio a digidol eraill i ymgynghori gyda'n tenantiaid yn y dyfodol. Os nad ydych chi wedi rhoi eich rhif ffôn symudol i ni ac yn awyddus i dderbyn gwybodaeth am ein gwasanaethau a chymryd rhan fel hyn cysylltwch â'n Canolfan Alwadau ar **0300 123 8084**.



Catrina Morris yn derbyn y wobwr gan Iolo Roberts

CYFRI'R CEINIOGAU

Diolch i bawb wnaeth lenwi ein holiadur Cyfri'r Ceiniogau a llongyfarchiadau i **Jonathan a Catrina Morris** o Lôn Eilian, Caernarfon am ennill y tabled electroneg.

Dyma oedd gennych i ddweud:

Roedd **80%** o'r rheiny atebodd yn dweud eu bod yn gallu defnyddio cyfri banc yn effeithlon.

Roedd **70%** yn hyderus wrth geisio cael hyd i fargen wrth brynu yswiriant.

Dim ond **50%** sydd yn medru arbed arian bob mis ac yn gwybod sut i gael borgen dda wrth fenthyg arian neu baratoi at fil annisgwyl.

Yr atebion mwyaf cyffredin i'r cwestiwn 'Pa help ydych chi angen?' oedd:

- Cyngor ariannol ar-lein
- Cyngor ar cael borgen dda a defnyddio llai o ynni

Cawsom geisiadau hefyd am gyngor ar facebook ar sut i arbed arian, gwybodaeth am Gredyd Pensiwn ac am y newidiadau i fudd-daliadau. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth yma i'ch cefnogi chi i wneud y gorau o'ch arian.

Am fwy o wybodaeth ffoniwch ni ar **0300 123 8084**, ewch i'n gwefan www.ccgwynedd.org neu i'n tudalen facebook www.facebook.com/CCGwynedd.

Crwydro'n Stadau

Yn ystod Mehefin, fe aeth staff CCG allan i gyfarfod rhai o'n tenantiaid yn Nhrwsfynydd, Abersoch a Mynytho. Braff oedd cyfarfod nifer ohonoch a chlywed eich barn am ein gwasanaethau.

Bydd yr ymweliadau stad nesaf yn cael eu cynnal yn:

Bontnewydd	11/08/15
Tremadog	12/08/15
Blaenau Ffestiniog	13/08/15

Gobeithio y cawn dywydd cystal eto ar gyfer gweddill yr haf!



Tîm ymweliadau CCG



CYFARFOD BLYNYDDOL

Partneriaeth Tenantiaid a Phreswylwyr

Ar y 16^{eg} o Fehefin eleni cynhaliwyd cyfarfod blynyddol Partneriaeth Tenantiaid a Phreswylwyr CCG ym Mhlas Menai, Caernarfon.

Y Bartneriaeth yw'r grŵp sy'n cynrychioli tenantiaid mewn materion sy'n ymwneud â CCG.


Aeth Ffrancon Williams, Prif Weithredwr CCG, i roi trosolwg o lwyddiannau dros y flwyddyn sydd wedi bod yn ogystal ag adrodd ar beth oedd heb fynd cystal. Siaradodd ychydig am ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf, yn benodol ar y gwaith sydd wedi ei nodi yn y cynllun corfforaethol newydd ac adeiladu cartrefi newydd.

Yn dilyn yr adroddiad, cafodd aelodau'r Bartneriaeth gyfle i ofyn cwestiynau.

Cynhaliwyd etholiad i enwebu swyddogion newydd ar gyfer y flwyddyn nesaf, dewiswyd:

- **Derek Hainge**, Cadeirydd (Tenant, Bangor)
- **Alan Field**, Is-gadeirydd (Tenant, Tywyn)
- **Julie Rathbone**, Ysgrifennydd (Tenant, Nantlle)
- **Lari Parc**, Trysorydd (Tenant, Y Fron)

Llongyfarchiadau mawr a phob hwyl i'r pedwar gyda'u gwaith dros y flwyddyn nesaf.



Aelodau'r Bartneriaeth

Os hoffech dderbyn mwy o wybodaeth am waith Y Bartneriaeth neu os oes gennych chi ddiddordeb mewn ymuno ewch i www.ccgwynedd.org neu dudalen Facebook: [partneriartccgpartnership](https://www.facebook.com/partneriartccgpartnership).

Tudalen y Plant

Croeso yn ôl i dudalen ein tenantiaid iau!

SWDOCW

3	4	1	
	2		
		2	
	1	4	3

A	DD	U	U	W	I	O	O	L	LL
S	H	S	E	R	W	G	M	C	P
CH	U	FF	R	S	W	N	M	L	CH
DD	F	S	T	N	O	F	I	O	L
O	E	I	L	LL	H	NG	T	T	P
S	N	P	O	M	N	N	R	RH	I
T	I	W	A	A	C	T	TH	S	C
L	A	LL	B	B	M	C	I	CH	N
I	A	TH	N	A	L	Y	W	G	I
R	A	T	W	N	N	C	A	I	C

Tîm Ansawdd i Denantiaid

Cafodd gwaith da y Tîm Ansawdd i Denantiaid ei gydnabod yn ddiweddar yng Ngwobrau Cyfranogiad TPAS Cymru a gynhaliwyd yng Nghaerdydd ddiwedd mis Mehefin.

Cipiodd y tîm y wobwr gyntaf yng nghategori 'Roy Parry - Gwella Gwasanaethau', gan guro ddeuddeg o ymgeiswyr eraill ar draws Cymru.

Mae'r tîm yma o denantiaid yn cyfarfod yn chwarterol i ffonio tenantiaid eraill sydd wedi derbyn gwasanaethau gan CCG yn ddiweddar. Y nod yw ceisio rhoi llais cryfach i gwsmeriaid wrth i ni weithio i wella ein gwasanaethau. Cafodd y tîm ei gynrychioli yng Nghaerdydd gan Dilys Pritchard, Alan Field a Sue Jones.



Dilys Pritchard, Alan Field and Sue Jones



ARCHWILIAD TÎM TRWSIO

Cynhaliwyd archwiliad diweddaraf y tîm 'nôl ym mis Chwefror. Pwrpas yr archwiliad y tro hwn oedd i weld pa mor fodlon oedd tenantiaid sydd wedi derbyn gwaith cynnal a chadw yn ddiweddar gyda gwasanaeth y Tîm Trwsio.

Dyma oedd y canlyniadau:

1. A gyrhaeddodd y gweithiwr ar yr amser a drefnwyd?
Do **86%** / Naddo **7%**
Ddim yn berthnasol **5%**
2. Oedd agwedd y gweithiwr yn gwrtais a chyfeillgar? Sut y byddech yn disgrifio eu hagwedd?
Da iawn **65%** / Da **28%**
Ddim un **0%** / Gwael **2%**
Gwael iawn **2%**
3. Oeddech chi'n fodlon gyda'r safon a'r amser a gymerwyd i wneud y gwaith?
Bodlon iawn **65%** / Bodlon **23%**
Ddim un **5%** / Anhapus **5%**
Anhapus iawn **0%**

4. Oeddech chi yn fodlon bod y man gweithio wedi cael ei adael yn lân a thaculus wedi cwblhau'r gwaith?
Bodlon iawn **60%** / Bodlon **31%**
Ddim un **2%** / Anfodlon **5%**
Anfodlon iawn **0%**
5. Ydych chi wedi cael trafferthion yn dilyn y gwaith?
Do **13%** / Naddo **86%**
6. Pa mor fodlon oeddech chi gyda'r holl broses o gael gwaith gan y Tîm Trwsio?
Bodlon iawn **47%** / Bodlon **39%**
Ddim un **0%** / Anfodlon **5%**
Anfodlon iawn **7%**



Byddwch yn ofalus yn yr haul yr haf hwn!
COFIWCH WISGO ELI HAUL, CAP A SBECTOL HAUL!

CHWILAIR GLAN Y MÔR

GWYLAN / HUFEN IÂ / NOFIO
PICNIC / CWCH / GWRES

Lliwiau'r Haf

Hwre, mae hi'n wyliau haf... beth am liwio'r lluniau yma!



Llais Tenantiaid



Dyma dudalen yn arbennig ar gyfer eich erthyglau chi, felly anfonwch nhw at cyfathrebu@ccgwynedd.org.uk

Maes chwarae newydd!

Yn y rhifyn hwn, Jacqui Hughes, tenant CCG o Gae Gwigin, Talybont sy'n rhannu'r stori tu ôl i lwyddiant project maes chwarae Grŵp Cymunedol TYB.


Cafodd Grŵp Cymunedol TYB ei sefydlu yn Awst 2011 gen i, Stephanie Jones a Karen Desch. Rydan ni gyd yn drigolion Talybont, ac yn famau i fechgyn o wahanol oeddrannau.

Dechreuodd y cyfan oherwydd bod pryderon am y diffyg cyfleusterau chwarae oedd ar gael i blant a phobl ifanc Talybont, yn enwedig y plant hŷn oedd wedi diflasu.

Aethom at ein Cyngor Cymuned gyda grŵp o blant lleol o bob oedran i leisio ein barn ac i weld a fyddai modd gwneud rhywbeth i helpu. Dywedodd y Cyngor nad oedd arian ar gael, ond soniwyd y byddai ffurfio grŵp cymunedol swyddogol yn ein galluogi i gael cymorth ariannol o lefydd eraill. Cawsom ein cyflwyno i Swyddog Adfywio a Swyddog Chwarae Cyngor Gwynedd, wnaeth ein harwain ar ein ffordd.

Dechreuodd y gwaith o godi arian ac yn ein digwyddiad cyntaf roedd plant ac oedolion o'r gymuned yn gwirfoddoli i olchi ceir. Roedd golchi ceir yn y glaw yn lot o hwyl (!) ond dechreuodd yr arian ddod i mewn. Fe drefnon ni ddigwyddiadau fel helpa wyau Pasg, parti Calan Gaeaf, a diwrnod o hwyl yr haf. Roedd y digwyddiadau i gyd yn hwyliog iawn a chawsom gefnogaeth gan y gymuned gyfan.

Cynhaliwyd ychydig o sesiynau ymgynghori cymunedol dros amser a dyna ble ddaeth y syniad y byddai maes



Maes chwarae newydd i blant Talybont

chwarae newydd ar gyfer y plant hŷn yn fuddiol i'n cymuned.

Mae angen llawer o amser ac ymroddiad ar broject fel hyn. Mae'n waith caled ond mae werth yr ymdrech. Dyma i chi syniad o sut aethom ni o'i chwmpas:

- Roedd gan Gyngor Cymuned Llanllechid dir (roeddem yn lwcus yma)
- Cyflawni materion cyfreithiol fel prydlesu tir, ceisiadau cynllunio, cofrestrfa ac arolwg ar y tir (codi arian a dalodd am yr holl ffioedd cynnar yma)
- Cyfweld tri chwmni iard chwarae gyda dyluniadau. Ar ôl ymgynghori gyda'r gymuned, dewis y ffefryn
- Gwneud cais am arian grant (5 cais yn ein hachos ni)
- Paratoi'r tir gyda gwaith daear a rhannu'r prosiect i ddau gyfnod. Fel oedd yr arian yn dod i mewn datblygwyd y parc mewn rhannau cyn i ni llwyddo i'w gwblhau yn derfynol.

Roeddem yn lwcus iawn o fod yn llwyddiannus yn ein ceisiadau a chael y cymorth ariannol ar gyfer y project.

Rydym wedi derbyn grant gan Cyngor Gwynedd, Grant Tirlenwi Tir â Mor, y Loteri, Magnox, yn ogystal â £10,000 gan Cartrefi Cymunedol Gwynedd. Casglodd y grŵp bron i £80,000.

Cawsom ein hagoriad swyddogol ym mis Mehefin gyda diwrnod o hwyl i'r teulu.

Mae Grŵp Cymunedol TYB yn hynod falch o'r hyn rydym wedi llwyddo i gyflawni fel grŵp bach. Doeddwn i ddim yn meddwl ei fod yn bosib i fod yn onest, ond rydyn ni wedi llwyddo! Byddwn yn annog unrhyw gymuned arall i fynd amdani.

Mae'r maes chwarae yn cael ei ddefnyddio'n ddyddiol. Mae gweld a chlywed y plant yn cael cymaint o hwyl yno yn grêt yn enwedig o wybod ein bod wedi chwarae rhan flaenllaw yn ei ddatblygiad. Yn y pen draw, dyma yn union yw hanfod Grŵp Cymunedol TYB - plant ac ieuencid ein cymuned. Mae wedi bod yn broject gwych i weithio arno ac rydym wrth ein bodd gyda'n maes chwarae newydd!